# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Adroddiad ACI Cychwynnol - Crynodeb Annhechnegol

Cyngor Bro Morgannwg

Hydref 2025

Delivering a better world

## Ansawdd gwybodaeth

| Paratowyd gan | Gwiriwyd gan | Dilyswyd gan | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|---|
| RC | CB | NCB | NCB |
| Uwch Gynllunydd Amgylcheddol | Prif Gynllunydd Amgylcheddol | Cyfarwyddwr Technegol | Cyfarwyddwr Technegol |

## Hanes Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad Adolygu | Manylion | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|---|
| F0.1 | 05.11.25 | Drafft cyntaf ar gyfer adolygiad mewnol | B.R. | Cynllunydd Amgylcheddol Graddedig |
| F1.0 | 06.11.25 | Drafft cyntaf i'w adolygu gan y cleient | R.C. | Prif Gynllunydd |
| F1.0 | 07.11.25 | Fersiwn derfynol ar gyfer ei chyhoeddi | C.B. | Cyfarwyddwr Cyswllt |
| | | | | |

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Bro Morgannwg

Paratowyd gan:

AECOM Limited
3 Rivergate,
Temple Quay,
Redcliffe,
Bryste BS1 6GD

Ff: +44 117 901 7000
aecom.com

Hawlfraint 2023 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Limited ("AECOM") yn unol â'i gontract gyda Chyngor Bro Morgannwg ac yn unol â'r egwyddorion ymgynghori a dderbynnir yn gyffredinol a'r gyllideb a sefydlwyd.  Nid yw AECOM wedi gwirio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti ac y cyfeirir ati yma, oni nodir yn wahanol yn y ddogfen. Ni fydd gan AECOM unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti sy'n defnyddio neu'n dibynnu ar y ddogfen hon

# Taflen Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 1
2. Beth Mae paratoi cynllyn/ACI wedi ei olygu hyd yma? .......... 6
3. Beth yw canfyddiadau'r ACI ar y cam hwn? .......... 18
4. Beth sy'n digwydd nesaf? .......... 21

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 AECOM i arwain ar Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Cyngor Bro Morgannwg (y cyfeirir ato yma fel 'y Cyngor'). Comisiynir AECOM i arwain yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Cyngor Bro Morgannwg (CBM). Mae’r ACI yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEYG) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD).

## 1.2 Eglurhad ar yr ACI

1.2.1 Mae’r ACL yn fecanwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol cynllun sy'n datblygu, a dewisiadau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod yr ACI yw llywio a dylanwadu ar y broses creu cynlluniau gyda'r nod o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a sicrhau’r effeithiau mwyaf cadarnhaol posib. Trwy'r dull hwn, mae'r ACI ar gyfer y CDLIN yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun sy'n datblygu at ddatblygu cynaliadwy.

1.2.2 Fel y nodwyd uchod, mae'r ACI yn ceisio bodloni'r gofynion a’r dyletswyddau ar gyfer AC, AAS, AEC, AEI, AEYG a LlCD. Y dull yw integreiddio'r cydrannau hyn yn llawn er mwyn darparu un broses asesu i lywio datblygiad y CDLIN.

### Yr Adroddiad ACI Cychwynnol

1.2.3 Cyhoeddir yr Adroddiad ACI Cychwynnol hwn law yn llaw â'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried a bydd Adroddiad ACI diwygiedig yn cael ei gyhoeddi wedi hynny law yn llaw â'r Cynllun Adneuo.

## 1.3 Beth mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio ei gyflawni?

1.3.1 Mae CBM wrthi'n paratoi'r CDLIN ar hyn o bryd, a fydd yn disodli'r CDLl presennol ac yn helpu i siapio Bro Morgannwg am y 15 mlynedd nesaf (hyd at 2036).

1.3.2 Bydd y CDLIN yn nodi'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a'r polisïau ar gyfer rheoli datblygiad ym Mro Morgannwg, a bydd yn cynnwys nifer o bolisïau cynllunio lleol. Bydd y CDLIN yn nodi cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Fro, gan gynnwys at ddibenion tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, trafnidiaeth, twristiaeth, mwynau, gwastraff a defnyddiau cymunedol.

1.3.3 Bydd y CDLIN hefyd yn nodi meysydd i'w diogelu rhag datblygu ac yn darparu polisïau y bydd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Bydd yn cael ei baratoi gan ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol,

rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Llesiant Lleol (CLlLl) 'Ein Bro - Ein Dyfodol' yn arbennig o bwysig ar y lefel leol. Mae'r CLlLl yn ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg ac mae ganddo gysylltiadau clir â'r CDLlN lle mae hwnnw'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.

1.3.4 Mae'r CDLlN yn ceisio cyflawni'r weledigaeth ganlynol:

*'Erbyn 2036:*

*Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei darged o fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Mae wedi mabwysiadu technegau arloesol a defnyddio adnoddau yn effeithlon i liniaru ei effaith ar yr amgylchedd, ac mae prosiectau di-garbon enghreifftiol gan gynnwys ysgolion a rhwydweithiau gwresogi ardal wedi'u rhoi ar waith. Mae datblygu Parc Ynni Gwyrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn Aberddawan wedi sefydlu Bro Morgannwg fel canolfan ranbarthol ar gyfer arloesi ym maes ynni adnewyddadwy a gwyrdd a gweithgynhyrchu di-garbon. Mae'r holl ddatblygiadau ym Mro Morgannwg bellach wedi eu hadeiladu i'r safonau uchaf o ran dylunio a pherfformiad amgylcheddol, gan ymgorffori mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau Newid Hinsawdd.*

*Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol. Mae'r trigolion yn falch o lle maen nhw'n byw a gallant gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt. Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai pobl hŷn; gan gyfrannu tuag at gymunedau amrywiol a chydlynus lle gall trigolion gynnal eu hannibyniaeth.*

*Drwy greu lleoedd, mae lleoedd a gofodau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gymdeithasol gynhwysol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac mae'r ymdeimlad o le yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at iechyd a lles. Cyflawnwyd gwelliannau cadarnhaol wrth leihau bwlch yr anghyfartaledd o ran ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig drwy well mynediad at gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau a buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig.*

*Mae'r Fro'n parhau i fod yn rhywle lle mae diwylliant ac amrywiaeth pobl, a rhinweddau unigryw ei chymunedau, yn cael eu cydnabod a'u gwarchod.*

*Mae creu lleoedd yn cefnogi ymdeimlad cryf o gymuned ac wedi cyfrannu at wella ansawdd bywyd pob cenhedlaeth. Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau lleol a lleoedd cynhwysol i gyfarfod a chwarae ynddynt. Bydd datblygiadau newydd yn parchu cymeriad lleol y Fro, gan warchod ei hamgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig eithriadol. Mae treftadaeth hanesyddol bwysig y Fro yn parhau i gael ei gwarchod a'i gwella.*

*Mae Rhaglen Twf ac Adfywio'r Cyngor ar gyfer y Barri wedi llwyddo i drawsnewid y dref. Mae'r dref a chanolfannau manwerthu lleol yn lleoedd bywiog, wrth i'r marina newydd yng Nglannau'r Barri ac Ynys y Barri sydd wedi'i hadfywio yn cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn. Mae amrywiaeth o gynlluniau ardaloedd cyhoeddus wedi gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol drwy'r dref.*

*Mae trefi'r Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth yn ganolfannau gwasanaeth cynaliadwy bywiog a deniadol sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau i'w trigolion a'r rheini sy'n byw mewn pentrefi cyfagos. Mae canol trefi wedi addasu i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad manwerthu a bellach yn gweithredu fel canolfannau aml-ddefnydd sy'n darparu mannau manwerthu, hamdden, hamddena, cymunedol a chyflogaeth.*

*Mae twf o fewn aneddiadau gwledig wedi darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn cefnogi cymunedau aml-genhedlaeth cytbwys sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal wledig. Trwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltedd band eang mae'r fro wledig yn gefn gwlad byw a gweithiol sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.*

*Mae cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru yn golygu bod Bro Morgannwg bellach wedi'i chysylltu'n dda gan system drafnidiaeth integredig sy'n cefnogi twf economaidd. Mae gan gymunedau fynediad at gysylltedd trafnidiaeth gwell yn lleol ac yn rhanbarthol, gyda thwf economaidd a thai yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy er budd cymunedau. Mae rhwydweithiau teithio llesol gwell o fewn a rhwng trefi a phentrefi wedi creu cymdogaethau bywiog a hygyrch i drigolion sydd wedi eu cysylltu â'u haneddiadau gwledig cyfagos.*

*Mae gan y Fro economi leol ffyniannus gyda sylfaen fusnes gytbwys ac amrywiol. Mae twf cyflogaeth newydd ym Mharthau Menter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd wedi denu buddsoddiad mewnol gan fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac uwch-dechnoleg, gan greu cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae gan y Fro weithlu medrus sy’n gallu ymaddasu. Mae darparu safleoedd cyflogaeth strategol a lleol, ochr yn ochr â chyfleoedd i fusnesau gwledig, arallgyfeirio amaethyddol a chysylltedd digidol, wedi galluogi busnesau presennol i dyfu a ffynnu ac mae wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cymudo allan o’r ardal.*

*Drwy fuddsoddi'n gryf mewn twristiaeth, hamdden, hamddena ac isadeiledd gwyrdd, mae Bro Morgannwg yn gyrchfan ymwelwyr gydol y flwyddyn. Mae rheoli sensitif a chynaliadwy ar ei hasedau adeiledig a naturiol gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth, Parciau Gwledig, traethau, cefn gwlad a threftadaeth hanesyddol wedi galluogi twristiaeth i ffynnu. Mae'r Fro yn denu ymwelwyr o bell ac mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth leol, buddsoddiad, ac yn hwylusydd arallgyfeirio gwledig.’*

1.3.5 Mae'r deg amcan strategol a nodir isod yn ehangu gweledigaeth y CDLl yn naw thema allweddol ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r Amcanion hyn nid yn unig yn adlewyrchu polisi Cynllunio Cenedlaethol, ond hefyd dyheadau'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol ac yn dangos sut y bydd y CDLlN yn helpu i fynd i’r afael â’r materion a nodwyd.

- Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid Hinsawdd
- Amcan 2 - Gwella Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol
- Amcan 3 - Cartrefi i Bawb
- Amcan 4 - Creu Lleoedd
- Amcan 5 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

- Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth
- Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig
- Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy
- Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd
- Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

## 1.4 Beth yw cwmpas yr ACI?

1.4.1 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol "Wrth benderfynu ar gwmpas a lefel y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol [h.y. cwmpas yr AC], bydd yr awdurdod cyfrifol yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori". Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yw'r cyrff ymgynghori yng Nghymru. Anfonwyd Adroddiad Cwmpasu at yr ymgyngoreion statudol am eu sylwadau rhwng Awst a Medi 2022. Ystyriwyd yr ymatebion a dderbyniwyd a gwnaed diwygiadau i'r wybodaeth sylfaenol a'r Amcanion ACI drafft lle roedd angen. Ers hynny, mae cwmpas yr ACI wedi esblygu wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg ac mae rhai mân welliannau wedi bod i amcanion yr ACI - fodd bynnag, mae'r cwmpas yn parhau i fod yr un y cytunwyd arno drwy'r ymgynghoriad cwmpasu penodol yn 2022.

1.4.2 Mae Tabl 1.1 yn cyflwyno amcanion yr ACI - wedi'u grwpio o dan ddeg pennawd pwnc - a sefydlwyd trwy gwmpasu, h.y. ystyried adolygiad o'r cyd-destun/gwaelodlin, materion allweddol a nodwyd ac ymatebion gan ymgyngoreion statudol.

1.4.3 Gyda'i gilydd, mae'r pynciau a'r amcanion ACI a gyflwynir yn Nhabl 1.1 yn darparu 'fframwaith' methodolegol ar gyfer arfarnu.

## Tabl 1.1 Fframwaith yr ACI

| Pwnc ACI | Amcan ACI |
|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | • Cefnogi economi gref, amrywiol, gynaliadwy a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chymorth i weithlu cryf yn y dyfodol. |
| **Poblogaeth a chymunedau** | • Darparu digon o dai marchnad a thai fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd?<br>• Gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd prydferth naturiol i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned ac anheddiad. |
| **Iechyd a llesiant** | • Gwella iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg, trwy hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | • Leihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol |
| **Newid yn yr hinsawdd** | • Cefnogi gwydnwch Bro Morgannwg i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb.<br>• Lleihau cyfraniad Bro Morgannwg at y newid yn yr hinsawdd yn sgil gweithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at ddiwallu targed sero net y Cyngor. |
| **Trafnidiaeth a symud** | • Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. |
| **Adnoddau naturiol** | • Nodi a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer cymaint â phosib.<br>• Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sy'n bodoli eisoes i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu meysydd glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch, lle y bo'n bosibl.<br>• Diogelu adnoddau mwynau a sicrhau bod cyflenwad digonol o ystod amrywiol o fwynau ar gael dros yr hirdymor.<br>• Cefnogi rheoli gwastraff.<br>• Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | • Diogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn ac o amgylch Bro Morgannwg. |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | • Cadw a gwella adnodd treftadaeth Bro Morgannwg, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol.<br>• Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Bro Morgannwg. |
| **Tirwedd** | • Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morwedd a threflun Bro Morgannwg. |

# 2. Beth mae Paratoi Cynllun/ACI wedi ei olygu hyd yma?

## 2.1

2.1.1 Mae angen i'r Adroddiad ACI, yn unol â gofynion rheoleiddiol (Atodlen 2 y Rheoliadau AAS), esbonio sut y gwnaethpwyd gwaith i ddatblygu ac yna gwerthuso dewisiadau amgen rhesymol, a sut y gwnaeth y Cyngor ystyried y canfyddiadau hyn wrth gwblhau'r Cynllun Adneuo. Dyma ffocws Rhan 1 o'r Adroddiad ACI. Yn y bôn, mae Rhan 1 yn archwilio'r broses sydd wedi arwain at y dull a ffefrir yn y Cynllun Adneuo, ac yna'r Cynllun Adneuo yw ffocws yr arfarniad yn Rhan 2 o'r Adroddiad ACI.

**Tabl 2.1: Camau'r CDLIN a'r ACI**

| Dogfennau ac Ymgynghoriad y CDLIN | Dogfennau ac Ymgynghoriad yr ACI |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (Tachwedd 2021) | |
| | Adroddiad Cwmpasu'r ACI (Rhagfyr 2022) |
| Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) (Tachwedd 2023) | Adroddiad ACI Cychwynnol Tachwedd 2023) |
| Cynllun Adneuo (Tachwedd 2025) | Yr Adroddiad ACI (Tachwedd 2025) |

2.1.2 Er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun a nodwyd ym Mhennod 2 o'r adroddiad ACI, mae'r Cyngor wedi archwilio faint o dwf (tai a chyflogaeth) sydd ei angen dros gyfnod y cynllun (2021 i 2036) a lle gellid lleoli'r twf hwn yn y Fro. Mae pob un o'r materion hyn yn cael eu trafod yn eu tro isod.

## 2.2 Sefydlu'r dewisiadau amgen rhesymol

2.2.1 Archwiliodd y Cyngor faint o dwf (tai a chyflogaeth) sydd ei angen dros gyfnod y cynllun (2021 i 2036) a lle gellid lleoli'r twf hwn yn y Fro. Mae pob un o'r materion hyn yn cael eu trafod yn eu tro isod.

### Lefel y twf

2.2.2 Comisiynodd CBM Edge Analytics i baratoi ystod o senarios demograffig, tai a thwf cyflogaeth i hysbysu'r CDLIN (2023). Deilliodd cyfanswm o ddeuddeg opsiwn twf o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru (pedwar opsiwn), senarios seiliedig ar dueddiadau gan POPGROUP (PG) (tri opsiwn), senarios a arweinir gan anheddau (dau opsiwn), a senarios a arweinir gan gyflogaeth (tri opsiwn). Gan ddefnyddio'r ffynonellau hyn, cyflwynir llwybrau twf poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Bro Morgannwg, ynghyd ag anghenion mudo net blynyddol, tai a chyflogaeth (gweler Tabl 2.1 trosodd).

## Tabl 2.2 Canlyniadau senario, 2021-2036

| Senario | Newid 2021-2036 | | | | Cyfartaledd fesul blwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newid yn y boblogaeth | % Newid yn y boblogaeth | Newid i Aelwydydd | % Newid i Aelwydydd | Mudo net | Aneddiadau | Cyflogaeth |
| 5Y a arweinir gan Anheddau | 19,048 | 13.9 | 10,062 | 16.9 | 1,360 | 698 | 493 |
| PG-5Y | 16,923 | 12.4 | 9,187 | 15.4 | 1,222 | 637 | 426 |
| Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) a arweinir gan gyflogaeth | 13,224 | 9.8 | 7,599 | 12.9 | 1,020 | 527 | 341 |
| WG-2018-HIGHPOP | 13,127 | 9.7 | 7,500 | 12.7 | 938 | 520 | 292 |
| 10Y a arweinir gan Anheddau | 13,154 | 9.7 | 7,587 | 12.8 | 1,009 | 526 | 325 |
| ATC a arweinir gan gyflogaeth (CR 1-1) | 10,719 | 7.9 | 6,548 | 11.1 | 869 | 454 | 341 |
| WG-2018 | 9,787 | 7.3 | 6,214 | 10.6 | 851 | 431 | 243 |
| PG-Hirdymor | 8,561 | 6.3 | 5,705 | 9.6 | 739 | 396 | 210 |
| PG-10Y | 8,519 | 6.3 | 5,695 | 9.6 | 741 | 395 | 197 |
| WG-2018-LOWPOP | 5,172 | 3.8 | 4,559 | 7.8 | 759 | 316 | 191 |
| OE a arweinir gan gyflogaeth | 2,402 | 1.8 | 3,041 | 5.2 | 367 | 211 | 25 |
| WG-2014 | 13 | 0.0 | 2,182 | 3.9 | 64 | 151 | -126 |

2.2.3 Fel y dangosir yn Nhabl 2.1 uchod, mae'r angen tai blynyddol yn amrywio o 151 annedd y flwyddyn, o dan brif amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2014, i 698 annedd y flwyddyn, o dan y senario 5 mlynedd a arweinir gan anheddau. Y senario agosaf at bwynt canol rhwng y senarios twf isel ac uchel yw prif amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, sy'n cyflawni 431 o anheddau'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o opsiynau'n dod o fewn cant yn fwy / llai o anheddau na'r pwynt canol hwn.

2.2.4 Mae'r senarios wedi'u grwpio'n dri opsiwn ar gyfer twf isel, canolig ac uchel fel a ganlyn:

- **Twf isel:** 151 i 211 o anheddau'r flwyddyn, a gostyngiad o 125 o swyddi i gynnydd o 25 o swyddi'r flwyddyn (WG-2014 a senarios Oxford Economics a arweinir gan Gyflogaeth).
- **Twf canolig:** 316 i 527 annedd y flwyddyn a 191 i 341 o swyddi newydd y flwyddyn (WG-2018-LOWPOP, PG-10Y, PG-Hirdymor, WG-2018, ATC a arweinir gan Gyflogaeth (CR 1-1), 10Y a arweinir gan Anheddau, WG-2018-HIGHPOP, a senarios ATC a arweinir gan Gyflogaeth).
- **Twf uchel:** 637 i 698 annedd y flwyddyn a 426 i 493 o swyddi newydd y flwyddyn, (senarios PG-5Y a 5Y a arweinir gan Anheddau).

2.2.5 Aseswyd y tri opsiwn hyn drwy'r ACI, a chyflwynwyd y canfyddiadau yn yr Adroddiad ACI Cychwynnol (2023). Mae'r asesiad hwn hefyd wedi'i atodi i'r

prif Adroddiad ACI sy'n cael ei gyflwyno ar y cam hwn (Atodiad B). Nododd y Cyngor yn 2023 mai'r dull a ffefrir yw'r senario 10 mlynedd dan arweiniad anheddau, a fyddai'n darparu lefel ganolig o dwf (526 o anheddau newydd y flwyddyn a 325 o swyddi newydd y flwyddyn). Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, nid oes unrhyw senarios ychwanegol wedi'u nodi, ac mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r dull a ffefrir o'r senario 10 mlynedd dan arweiniad anheddau.

## Lleoliadau Twf

2.2.6 Wrth ystyried sut y gellid dosbarthu'r lefel twf yn briodol ledled y Fro, nododd y Cyngor bedwar opsiwn strategaeth ofodol amgen yn 2023 (gweler Tabl 2.3). Datblygwyd y rhain o fewn paramedrau'r fframwaith polisi cenedlaethol a rhanbarthol, ac yng nghyd-destun yr heriau ar gyfer twf yn y Fro.

**Tabl 2.3: Opsiynau gofodol**


| Opsiynau gofodol | Disgrifiad |
|---|---|
| **1. Parhau â Strategaeth Dwf y CDLl Mabwysiedig** | Parhau i hyrwyddo datblygiadau newydd yn bennaf ym Mharth y De-ddwyrain (Y Barri, Penarth, Llandochau, a Dinas Powys) ac o gwmpas ardal Sain Tathan, gyda chefnogaeth datblygiad mewn prif aneddiadau ac aneddiadau gwledig bach fel y bo'n briodol. |
| **2. Twf Gwasgaredig** | Dosbarthu twf i bob anheddiad yn gymesur â maint yr anheddiad. |
| **3. Twf â Ffocws** | Cyflawni twf yn yr aneddiadau mwyaf yn yr ardal, yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau. Byddai'r twf yn canolbwyntio ar anheddiad allweddol y Barri a'r canolfannau gwasanaeth (y Bont-faen, Llanilltud Fawr, a Phenarth). Byddai'r prif aneddiadau hefyd yn darparu elfen o dwf sy'n gymesur â'u maint. Byddai twf yn cael ei gyfyngu mewn aneddiadau gwledig bach, pentrefannau, ac aneddiadau gwledig llai. |
| **4. Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy** | Canolbwyntio twf ar hyd Rheilffordd Bro Morgannwg a llinell gangen Penarth ac, o bosib, darparu gorsaf ychwanegol yn Sain Tathan. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan dwf mewn ardaloedd eraill sydd â chysylltedd teithio llesol a bysus cadarn â gwasanaethau a nodau trafnidiaeth. Byddai twf mewn ardaloedd eraill yn cael ei gyfyngu i ddatblygiad fforddiadwy cyfyngedig ar raddfa fach i ddiwallu anghenion a nodwyd. |

2.2.7 Datblygwyd ac adroddwyd ar y pedwar opsiwn ym Mhapur Cefndir Opsiynau Gofodol y Cyngor yn 2023. Mae'r Papur Cefndir yn ystyried manteision ac

anfanteision pob opsiwn gofodol, gan gynnwys cydymffurfiaeth pob opsiwn gofodol â Chymru'r Dyfodol. Amlinellir yr opsiynau hyn isod.


## Spatial Option 1 - Continuation of Adopted LDP Growth Strategy

Vale of Glamorgan Replacement Local Development Plan 2021 - 2036





## Spatial Option 2 - Dispersed Growth

Vale of Glamorgan Replacement Local Development Plan 2021 - 2036




Spatial Option 3 - Focused Growth

Vale of Glamorgan Replacement Local Development Plan 2021 - 2036




Spatial Option 4 - Sustainable Transport Oriented Growth

Vale of Glamorgan Replacement Local Development Plan 2021 - 2036




2.2.8 Aseswyd yr opsiynau hyn fel rhan o'r ACI, a chyflwynwyd canlyniadau'r asesiad hwn yn yr Adroddiad ACI Cychwynnol (2023) a oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyn Adneuo mewn ymgynghoriad yn 2023. Er mwyn cyflawnrwydd, darperir yr asesiad o'r opsiynau hyn hefyd yn Atodiad C o’r prif Adroddiad ACI sy'n cael ei gyflwyno ar y cam hwn.

2.2.9 Nododd y Cyngor ddull gofodol a ffefrir yn 2023 o Opsiwn Gofodol 4 (Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy), gan fod yr opsiwn hwn yn cyd-fynd orau â gofynion polisi Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru, a Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r opsiwn yn ceisio ystyried gallu aneddiadau i ddarparu ar gyfer datblygiad, yn hytrach na thargedu datblygiad yn bennaf i safleoedd o faint neu safle penodol yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'n ceisio lleoli datblygiad mewn lleoedd a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus, a hefyd targedu lleoedd sy'n lleihau'r angen i deithio trwy gyd-leoli tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Yn dilyn adborth ymgynghori, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r dull hwn (Opsiwn Gofodol 4) ac nid oes unrhyw ddulliau amgen newydd wedi dod i'r amlwg.

2.2.10 Mae safleoedd wedi'u nodi a allai fod yn sail i'r strategaeth ofodol. Safle Ymgeisiol yw safle a gyflwynir i'r Cyngor gan barti â diddordeb (e.e. datblygwr neu berchennog tir) i'w chynnwys o bosib fel dyraniad yn y CDLIN. Ymgymerodd y Cyngor â Galwad am Safleoedd Ymgeisiol yn 2022, lle cyflwynwyd cyfanswm o 148 o safleoedd i'w hystyried.

2.2.11 Er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf priodol a chyflawnadwy, datblygodd y Cyngor broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol oedd â'r nod o brofi addasrwydd safleoedd yn erbyn ystod o feini prawf cynllunio gan gynnwys priodweddau amgylcheddol, ffisegol a thystiolaeth o hyfywedd/cyflawnadwyedd, sy'n gyson â'r egwyddorion a nodir yn Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru, Argraffiad 3 (2020). Roedd Cam 1 o'r Asesiad Safleoedd Ymgeisiol yn hidlo cyfanswm o 19 o safleoedd fel rhai anaddas (gweler Papur Asesu Safleoedd Ymgeisiol a'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ), ac ystyriwyd bod y 134 o safleoedd sy'n weddill yn addas i'w hystyried ymhellach.

2.2.12 Mae'r 134 o safleoedd a allai fod yn addas hefyd wedi'u hasesu drwy'r ACI gan ddefnyddio dadansoddiad Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol lefel uchel o safleoedd, sy'n gysylltiedig ag amcanion ACI sefydledig. Cyhoeddwyd allbwn yr asesiad hwn yn yr Adroddiad ACI Cychwynnol yn 2023 ochr yn ochr â'r Cynllun Cyn Adneuo. Nododd ymgynghoriad yn 2023 safleoedd ychwanegol, nad oeddent wedi'u hasesu o'r blaen, trwy ddadansoddiad Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol yr ACI sydd bellach wedi bod yn destun yr un asesiad. Darperir allbwn wedi'i ddiweddaru o ddadansoddiad Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol yr ACI o safleoedd (ynghyd â'r fethodoleg ar gyfer yr asesiad) yn Atodiad D.

2.2.13 Mae Asesiad Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor a dadansoddiad Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol yr ACI wedi helpu'r Cyngor i nodi safleoedd allweddol a fydd yn sail i'r strategaeth ofodol. Mae safleoedd allweddol yn safleoedd strategol mawr (o dros 200 o gartrefi), a fydd, ynghyd â dyraniadau wedi'u cyflwyno o'r CDLl presennol, yn diwallu'r anghenion tai ac economaidd a nodwyd. Mae safleoedd allweddol yn ffurfio'r dewisiadau strategol sy'n weddill i'r Cyngor mewn perthynas â'r strategaeth ofodol ar gyfer y CDLIN. Yn 2023, nodwyd cyfanswm o 8 Safle Allweddol (gweler Tabl 2.4), a chafodd y rhain eu hasesu drwy'r ACI fel rhan o'r arfarniad o'r Cynllun cyn Adneuo (Rhan 2 o'r Adroddiad ACI Cychwynnol 2023).

### Tabl 2.4 dyraniadau safleoedd allweddol

| Enw'r safle | Anheddiad | Categori safle |
|---|---|---|
| Tir yng Ngogledd-ddwyrain y Barri | Y Barri | Safle newydd |
| Readers Way | Y Rhws | Safle newydd |
| Tir i'r gogledd o'r Linell Reilffordd | Y Rhws | Safle CDLI a fwrwyd ymlaen (cais cynllunio yn aros am benderfyniad) |
| Tir i'r Gorllewin o Sain Tathan | Sain Tathan | Safle newydd |
| Tir i'r de o Millands Farm | Llanilltud Fawr | Safle newydd |
| Church Farm/ Tir gerllaw Church Farm | Sain Tathan | Safle newydd |
| Tir i'r gogledd o Ddinas Powys | Dinas Powys | Safle newydd |
| Fferm Cosmeston Uchaf | Penarth | Safle CDLI a fwrwyd ymlaen (cais cynllunio yn aros am benderfyniad) |

## Newidiadau yn ystod cam y Bwrdd

2.2.14 Ers ymgynghori ar y Cynllun Cyn Adneuo a'r Adroddiad ACI Cychwynnol, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn parhau i gael eu datblygu fel rhan o'r strategaeth ofodol dan y dull cyffredinol o ddatblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth gynaliadwy (Opsiwn Gofodol 4).

2.2.15 Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u codi mewn perthynas â chyflawnadwyedd yr opsiwn safle allweddol i ogledd-ddwyrain y Barri, a'i allu i ddarparu'r manteision disgwyliedig mewn perthynas ag egwyddorion creu lleoedd. Felly, mae wedi bod yn angenrheidiol ailystyried ei gynnwys fel safle allweddol o fewn y CDLlN.

2.2.16 Yn dilyn asesiad manwl o'r safleoedd ymgeisiol sydd ar gael, 'Tir i'r gogledd-orllewin o'r Barri (Weycock Cross)' oedd yr unig opsiwn safle ymgeisiol mawr arall (dros 100 o anheddau) yn y Barri a gafodd sgôr 'werdd' (h.y. safleoedd a ystyriwyd yn addas i'w hystyried ymhellach ar gam y Strategaeth a Ffefrir, yn amodol ar ystyriaeth fanylach fel rhan o baratoi'r Cynllun Adneuo). Yn benodol, mae hyn gyda'r bwriad o gefnogi'r strategaeth ofodol a ffefrir (Opsiwn Gofodol 4) a gwella rôl a swyddogaeth y Barri fel yr anheddiad mwyaf cynaliadwy yn y Fro o ran cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, cyfleoedd cyflogaeth ac ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau, a dyma'r ardal hefyd sydd â'r angen mwyaf am dai fforddiadwy.

2.2.17 Cynhaliodd Cyngor Bro Morgannwg ymgynghoriad wedi'i dargedu ar dwf tai yn y Barri rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025. Cyflwynodd yr ymgynghoriad y rhesymeg dros ailystyried yr opsiwn safle 'Tir i'r gogledd-ddwyrain o'r Barri', wrth hefyd dynnu sylw at y cyd-destun a'r cynigion dangosol ar gyfer yr opsiwn safle amgen, 'Tir i'r gogledd-orllewin o'r Barri (Weycock Cross)'.

2.2.18 Mae'r Tir i'r gogledd-ddwyrain o'r Barri wedi'i asesu drwy'r ACI hyd yma, ond mae'r Tir i'r gogledd-orllewin o'r Barri wedi'i nodi fel dewis arall i'r safle hwn a dyma'r opsiwn newydd a ffefrir ar gyfer y CDLIN Adneuo. Mae'r CDLIN Adneuo yn nodi'r safleoedd allweddol canlynol a'r dyraniadau sydd wedi'u cario drosodd, yn ogystal â safleoedd banc tir mawr sy'n cyfrannu at ddatblygiad ymrwymedig (Tabl 2.5).

**Tabl 2.5: Safleoedd a nodwyd yn y Cynllun Adneuo yn 2025**

| Enw'r safle | Categori'r safle | Sylwadau |
|---|---|---|
| Tir yng ngogledd-orllewin y Barri | Safle Allweddol | Mae'r safle hwn yn disodli'r dyraniad arfaethedig blaenorol yn 'Tir i'r gogledd-ddwyrain o'r Barri'. |
| I'r gogledd o Ddinas Powys, oddi ar Heol Caerdydd, Dinas Powys | Safle Allweddol | Dim newid. |
| Tir yn Readers Way, y Rhws | Safle Allweddol | Dim newid. |
| Tir yn Church Farm, Sain Tathan | Safle Allweddol | Dim newid. |
| Tir i'r gorllewin o Sain Tathan, Sain Tathan | Safle Allweddol | Dim newid. |
| Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane, Tir yn y Mole, Tir yn Hayes Lane, Tir yn Neptune Road | Safleoedd dyrannu sydd wedi'u cario drosodd yn y Barri | Dyrannwyd tir yn Hayes Lane a thir yn Neptune Road yn y cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer defnyddiau amgen, maent wedi'u nodi yn y Cynllun Adneuo ar gyfer datblygu tai. |
| Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewys Road (Safle C - Parsel Canolog) | Safle dyrannu sydd wedi'i gario drosodd yn Llanilltud Fawr | Tir y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel Tir i'r de o Millands Farm |
| Tir cyfagos â St Athan Road | Safle dyrannu sydd wedi'i gario drosodd yn y Bont-faen | Dim newid. |
| Hen safle'r Stadiwm, ger Burley Place, Heol Clive, Sain Tathan | Safleoedd dyrannu sydd wedi'u cario drosodd yn Sain Tathan | Dim newid. |
| Tir i'r gogledd o'r Rheilffordd (Dwyrain) | Safle dyrannu sydd wedi'i gario drosodd yn y Rhws | Dim newid. |
| Tir yn Upper Cosmeston Farm, Penarth | Safle banc tir | Datblygiad sydd bellach yn ymrwymedig (yn amodol ar a106). |

| Enw'r safle | Categori'r safle | Sylwadau |
|---|---|---|
| Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewys Road (Safle A - Parsel Gorllewinol) a thir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewys Road (Safle B - Parsel Dwyreiniol) | Safleoedd banc tir yn Llanilltud Fawr | Datblygiad ymrwymedig (yn amodol ar a106). |
| Tir i'r de o Fryn Llandochau / Heol Penarth, Llandochau | Safle banc tir | Datblygiad ymrwymedig |
| Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road (Cam 2), Sili | Safle banc tir | Datblygiad ymrwymedig |
| Tir i'r dwyrain o Dregolwyn, Tregolwyn | Safle dan Arweiniad Tai Fforddiadwy Gwledig | Safleoedd dan arweiniad tai fforddiadwy gwledig a gyflwynwyd yn y Cynllun Adneuo, mae gan bob safle gapasiti ar gyfer llai na 51 o gartrefi. |
| Tir i'r gorllewin o Maendy Road, Aberthin | Safle dan Arweiniad Tai Fforddiadwy Gwledig | Datblygiad ymrwymedig |
| Tir yn Heol Fain, Y Wig | Safle dan Arweiniad Tai Fforddiadwy Gwledig | Datblygu wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd (yn amodol ar s106). |
| Tir i'r gogledd o Barc Busnes West Winds, Fferm Goch | Safle dan Arweiniad Tai Fforddiadwy Gwledig | Datblygu wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd (yn amodol ar s106). |

2.2.19 Mae yna 'safleoedd allweddol' mawr eraill y gellid eu hystyried hefyd fel rhai yn y ras o ran dyraniad amgen o safbwynt yr ACI (gan gydnabod bod y CDLIN Adneuo wedi nodi dull a ffefrir yng ngogledd-orllewin y Barri), a rhai sydd wedi'u diystyru fel dewisiadau amgen rhesymol.

2.2.20 Mae safleoedd sydd wedi'u diystyru fel rhai afresymol yn cynnwys y canlynol:

- Parc Hoddnant yn Llanilltud Fawr (Safle 364): byddai'r safle hwn yn cael effaith sylweddol ar rywogaethau a warchodir, gyda llwybr effaith (afon) yn rhedeg ger y safle. Mae'r Cyngor wedi gwrthod y safle hwn ar sail cyfyngiadau bioamrywiaeth sylweddol.
- Tir i'r de o orsaf drenau y Rhws (Safle 488): tynnwyd y safle yn ôl gan hyrwyddwr y safle ac ni ellir cadarnhau ei fod ar gael i'w ddatblygu dros gyfnod y cynllun.
- Tir yn Higher End, Sain Tathan: Adeiladwyd ar hanner y safle hwn bellach, ac mae gan gam arall ganiatâd cynllunio ar gyfer 25 uned. Ni chyflwynwyd yr ardal ddatblygadwy bosib sy'n weddill fel rhan o'r ddwy

alwad am safleoedd ymgeisiol. Ni fyddai'n darparu digon o gartrefi (dros 200) i fod yn safle allweddol a darparu dewis arall addas i'r twf y gellid ei gyflawni ar safle gwahanol yn y Barri.

- Tir yn Higher End, Sain Tathan: Adeiladwyd ar hanner y safle hwn bellach, ac mae gan gam arall ganiatâd cynllunio ar gyfer 25 uned. Ni chyflwynwyd yr ardal ddatblygadwy bosib sy'n weddill fel rhan o'r ddwy alwad am safleoedd ymgeisiol. Ni fyddai'n darparu digon o gartrefi (dros 200) i fod yn safle allweddol a darparu dewis arall addas i'r twf y gellid ei gyflawni ar safle gwahanol yn y Barri.
- Tir yng Nghroes Cwrlwys (Safle 480): Mae hwn yn safle arbennig o fawr a fyddai'n lleihau cyfanrwydd y Lletem Las ddynodedig yn sylweddol. Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn gwrthwynebu'r safle hwn heb unrhyw fynediad addas wedi'i nodi.
- Tir oddi ar Ffordd y Mileniwm: Er bod y safle yn safle tir llwyd o fewn yr ardal twf strategol, mae'n ddarostyngedig i gyfamod sy'n cyfyngu'r denydd o'r tir i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

2.2.21 Ar wahân i'r Tir yng ngogledd-orllewin y Barri, mae'r safleoedd sy'n weddill y gellid eu hystyried fel lleoliadau twf amgen posib (at ddibenion yr ACI) y tu allan i'r Barri, fel a ganlyn:

- Dinas Powys: gyda nifer o safleoedd yn cael eu hyrwyddo yn yr ardal hon (Safleoedd 444, 356, 419, a 423), mae potensial i gynyddu lefel y datblygiad ar y Tir i'r gogledd o Ddinas Powys i ddarparu'r nifer o gartrefi sydd eu hangen i ddiwallu'r angen tai sy'n weddill.
- Y Bont-faen: gyda dau safle allweddol posib yn y Bont-faen (Safleoedd 455 a 514) gellid diwallu'r angen tai sy'n weddill yn y lleoliad hwn.
- Sili: Mae un safle mawr (Safle 376) a allai ddarparu tua 250 o gartrefi, felly er y gellid cyfeirio twf ychwanegol at Sili, byddai'r safle yn darparu llai o gartrefi na'r opsiynau yn Ninas Powys, y Bont-faen a Llanbedr-y-fro.
- Llanbedr-y-fro: Gallai un safle mawr yn Llanbedr-y-Fro (Safle 549) gyflawni'r un lefel o dwf yn fras ag ar y safle a ffefrir yng 'ngogledd-orllewin y Barri', er bod ardaloedd o risg llifogydd uchel yn croesi'r safle.

2.2.22 Mae'r dewisiadau amgen hyn wedi'u nodi ochr yn ochr â'r dull a ffefrir i gynnal lefelau uwch o dwf yn y Barri, drwy ddyrannu'r Tir yng ngogledd-orllewin y Barri.

2.2.23 Yng nghyd-destun yr uchod, mae pum opsiwn yn ffurfio’r dewisiadau amgen mwyaf cyfredol a fydd yn diwallu'r angen tai sy’n weddill yn absenoldeb dyrannu tir yng ngogledd-ddwyrain y Barri, ac sy'n cael eu datblygu i'w hasesu yn yr Adroddiad ACI hwn. Mae’r opsiynau hyn fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1**: Lleoliad amgen yn y Barri (Gogledd-orllewin y Barri)
- **Opsiwn 2:** Mwy o dwf yn y Tir i'r gogledd o Ddinas Powys
- **Opsiwn 3:** Twf ychwanegol yn y Bont-faen
- **Opsiwn 4:** Twf ychwanegol yn Sili
- **Opsiwn 5:** Twf ychwanegol yn Llanbedr-y-Fro

## 2.3 Gwerthuso dewisiadau rhesymol

2.3.1 Mae'r opsiynau strategol a nodwyd uchod wedi bod yn destun arfarniad cymharol dan bob pwnc ACI. Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o ganlyniadau'r asesiad safle. Cyflwynir canfyddiadau gwerthuso llawn ym Mhennod 6 o'r prif Adroddiad ACI.

| Thema | | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** |
| | **Safle** | **1** | **2** | **5** | **=3** | **=3** |
| **Poblogaeth a chymunedau** | **Effaith sylweddol?** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** |
| | **Safle** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **Iechyd a lles** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** |
| | **Safle** | **1** | **2** | **=3** | **=3** | **5** |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | **Effaith sylweddol?** | **Oes - cadarnhaol** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Oes - cadarnhaol** | **Nac oes** |
| | **Safle** | **1** | **3** | **=4** | **2** | **=4** |
| **Newid hinsawdd** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** |
| | **Safle** | **1** | **3** | **2** | **4** | **5** |
| **Trafnidiaeth a symud** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** |
| | **Safle** | **1** | **2** | **=3** | **=3** | **5** |
| **Adnoddau naturiol** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Oes – negyddol** | **Nac oes** | **Oes - negyddol** |
| | **Safle** | **=2** | **1** | **4** | **=2** | **5** |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** |
| | **Safle** | **=4** | **=1** | **3** | **=1** | **=4** |
| **Amgylchedd hanesyddol** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Nac oes** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Safle** | **=4** | **=1** | **3** | **=1** | **=4** |
| **Tirwedd** | **Effaith sylweddol?** | **Nac oes** | **Nac oes** | **Oes – negyddol** | **Nac oes** | **Oes - negyddol** |
| | **Safle** | **2** | **3** | **=4** | **1** | **=4** |

## 2.4 Datblygu'r dull dymunol

2.4.1 Yn y cam Strategaeth a Ffefrir, nododd y Cyngor resymau manwl dros ddatblygu lefel ganolig o dwf ac Opsiwn Gofodol 4 (dull twf cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth), a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ACI Cychwynnol. Mae'r opsiynau hyn yn parhau i gael eu datblygu ac maent wedi llywio'r dewisiadau amgen sydd wedi'u datblygu ar y cam hwn.

2.4.2 Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag Opsiwn 1 yn y CDLIN Adneuo a fydd yn dyrannu'r Tir yng ngogledd-orllewin y Barri, ac yn cynnal lefelau twf strategol yn y prif anheddiad yn y Fro. Ystyrir bod yr opsiwn hwn yn mynd i'r afael orau ag amcanion y CDLIN, a bydd yn darparu mwy o dai fforddiadwy mewn ardal sydd â'r angen mwyaf. Gan adlewyrchu'r manteision hyn, Opsiwn 1 sy'n cael ei ffafrio'n gyffredinol.

2.4.3 O ystyried y diffyg gwasanaethau a chyfleusterau ategol sydd ar gael yn Llanbedr-y-fro (Opsiwn 5), nid yw'r lleoliad yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer twf ar y raddfa hon. Er bod gwasanaethau bysus yn cefnogi mynediad trafnidiaeth gynaliadwy yn y Bont-faen (Opsiwn 3) a Sili (Opsiwn 4), gyda chysylltiadau rheilffordd uniongyrchol ar gael yn y Barri a Dinas Powys, nid yw twf pellach ar raddfa fawr yn y Bont-faen neu Sili yn opsiwn a ffefrir.

# 3. Beth yw canfyddiadau'r ISA ar y cam hwn?

## 3.1 Arfarniad o'r Cynllun Adneuo

3.1.1 Mae Rhan 2 o'r Adroddiad ACI yn darparu arfarniad o'r Cynllun Adneuo cyfan fel y'i cyflwynwyd ar gyfer ymgynghori.

3.1.2 Mae'r arfarniad yn nodi ac yn gwerthuso 'effeithiau sylweddol tebygol' y cynllun ar y gwaelodlin, gan ddefnyddio'r amcanion ACI a nodwyd drwy gwmpasu (gweler Tabl 1.1) fel fframwaith methodolegol.

3.1.3 Mae canfyddiadau cryno cyffredinol wedi'u nodi isod. Cyflwynir canfyddiadau manwl ym Mhennod 10 o’r prif Adroddiad ACI.

## 3.2 Crynodeb o ganfyddiadau’r arfarniad

3.2.1 Rhagwelir **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** dan bwnc yr economi a chyflogaeth yr ACI. Mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o leoliad strategol y Fro, gan fanteisio ar ddyraniadau cyflogaeth mawr mewn lleoliadau cynaliadwy, fel meysydd buddsoddi allweddol. O ganlyniad, dylai helpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sylweddol, galluogi busnesau sefydledig i ehangu, a darparu ardaloedd deniadol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau lleol. Ystyrir y gallai twf economaidd o bosib leihau cymudo allan o’r sir, ond mae'r strategaeth yn dal i geisio gwella'r cysylltiadau cynaliadwy allweddol hynny ag ardaloedd cyflogaeth strategol y tu allan i'r Fro, fel Caerdydd.

3.2.2 Rhagwelir **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** dan amcanion y boblogaeth a chymunedau yr ACI. Mae’r CDLIN yn ceisio sicrhau lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth wedi’i chefnogi gan seilwaith priodol i gyd-fynd â safle'r Fro o fewn ardal twf cenedlaethol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd / Cymru’r Dyfodol. Ystyrir y bydd canolbwyntio twf, gan gynnwys safleoedd strategol allweddol, o fewn yr Ardal Dwf Strategol yn cefnogi datblygiad cymunedau addasadwy, hygyrch, sydd wedi'u cysylltu'n dda.

3.2.3 Rhagwelir **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol mewn** perthynas ag amcan iechyd a lles yr ACI. Mae'r Cynllun Adneuo yn cefnogi lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol hirdymor trwy ganolbwyntio twf mewn lleoliadau cynaliadwy gyda mynediad da at drafnidiaeth lesol a chyhoeddus, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw trwy rwydweithiau cerdded, beicio a seilwaith gwyrdd gwell. Mae'r Cynllun hefyd yn perfformio'n gadarnhaol trwy ei gwneud yn ofynnol darparu a gwella mannau gwyrdd hygyrch a chysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd.

3.2.4 Rhagwelir **mân effeithiau cadarnhaol** mewn perthynas ag amcan cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol yr ACI. Mae'r Cynllun Adneuo yn perfformio'n dda trwy gyfeirio twf i ardaloedd mwy difreintiedig, gan helpu i leihau anghydraddoldebau trwy well mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau. Mae'n blaenoriaethu tai fforddiadwy i fynd i'r afael â lefelau uchel o angen, yn enwedig yn y Barri a Phenarth/Llandochau, ac yn sicrhau darpariaeth ar gyfer cymunedau

penodol. Mae'r Cynllun hefyd yn hyrwyddo cymunedau cynhwysol, hygyrch trwy Safleoedd Allweddol wedi'u lleoli'n dda a datblygiad defnydd cymysg. Argymhellir bod amodau yn cael eu hychwanegu i gefnogi'r Gymraeg ymhellach fel rhan o gynnal cymunedau ffyniannus a chynaliadwy.

3.2.5 Rhagwelir **mân effeithiau negyddol** mewn perthynas ag addasu i newid hinsawdd, oherwydd rhywfaint o ddatblygiad sy'n digwydd mewn ardaloedd sy'n destun risg llifogydd afonol, dŵr wyneb neu arfordirol. Fodd bynnag, disgwylir i'r risgiau hyn gael eu lliniaru trwy bolisi cenedlaethol, mesurau rheoli llifogydd safle-benodol, a phwyslais y Cynllun Adneuo ar gyfeirio twf i ardaloedd risg is. O ran lliniaru newid hinsawdd, ystyrir bod effeithiau’n niwtral ar y cyfan. Er y dylai ffocws y Cynllun ar leoliadau cynaliadwy, darpariaeth ynni adnewyddadwy, a lleihau dibyniaeth ar geir helpu i leihau allyriadau, bydd y cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn dal i gyfrannu at ryw lefel o allbwn carbon.

3.2.6 Rhagwelir **mân effeithiau cadarnhaol** mewn perthynas â thrafnidiaeth a symud. Mae'r Cynllun Adneuo yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy yn gryf trwy ganolbwyntio twf mewn lleoliadau hygyrch, a dyrannu Safleoedd Allweddol o fewn pellter cerdded a beicio i wasanaethau allweddol, yn ogystal â ger cysylltiadau bysus a rheilffyrdd. Disgwylir i'r dull hwn wella cysylltedd, hyrwyddo teithio llesol, a lleihau dibyniaeth ar geir. Mae polisïau ehangach sy'n diogelu tir ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth yn cryfhau'r manteision hyn ymhellach. Yn eu tro, mae'r mesurau hyn yn debygol o greu effeithiau cadarnhaol ychwanegol ar gyfer iechyd, lles, newid hinsawdd, ac adnoddau naturiol trwy leihau allyriadau ac annog ymddygiadau teithio iachach.

3.2.7 Rhagwelir **mân effeithiau negyddol mewn** perthynas ag amcan adnoddau naturiol yr ACI. Er bod y Cynllun Adneuo yn cefnogi teithio cynaliadwy, gwell ansawdd aer, a thwf mewn lleoliadau gyda phriddoedd o ansawdd is, mae colli rhywfaint o faes glas a thir amaethyddol yn anochel oherwydd cyfleoedd tir llwyd cyfyngedig. Mae yna hefyd rywfaint o ansicrwydd ynghylch effeithiau posib ar adnoddau mwynol a dŵr, gan fod sawl safle yn dod o fewn ardaloedd diogelu mwynau lle gall adnoddau gwerthfawr gael eu colli. Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i liniaru'r risgiau hyn, ond argymhellir cryfhau polisïau ymhellach - megis dull cliriach tir llwyd yn gyntaf a mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer adnoddau mwynol - er mwyn lleihau effeithiau andwyol.

3.2.8 Rhagwelir **effeithiau cadarnhaol niwtral i fân** mewn perthynas ag amcan bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yr ACI. Er y gallai twf ychwanegol yn y Fro beri risgiau i safleoedd bioamrywiaeth dynodedig, coetiroedd hynafol, a chynefinoedd lleol, disgwylir i'r effeithiau negyddol posib hyn gael eu lliniaru trwy fesurau polisi cryf. Mae'r Cynllun Adneuo yn cynnwys amodau dylunio a safle-benodol i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo seilwaith gwyrdd a glas, a chefnogi gwytnwch ecosystemau. Ar y cyfan, er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol sylweddol fel yr amlinellir gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), mae'r Cyngor yn ychwanegu polisi a fydd yn mabwysiadu argymhellion yr ARhC ac yn lliniaru'r effeithiau hyn.

3.2.9 Disgwylir **mân effeithiau negyddol** ar hyn o bryd mewn perthynas ag amcan yr amgylchedd hanesyddol. Mae amodau o fewn polisïau'r Safle Allweddol a'r fframwaith polisi ehangach yn gweithio'n dda i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol a chryfhau cadernid y cynllun adneuo.

Felly, ystyrir bod mân effeithiau negyddol yn debygol – gan adlewyrchu'r lefel o ddatblygiad y disgwylir iddo ddod ymlaen a'i botensial i effeithio ar leoliad ac arwyddocâd yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r casgliad hwn hefyd yn cyfrif am ddarpariaethau polisi'r Cynllun Adneuo, sy'n gweithio'n dda i leihau effeithiau negyddol andwyol, yn ogystal ag adborth o'r ymgynghoriad Cyn Adneuo.

3.2.10 Rhagwelir mân effeithiau negyddol a mân effeithiau cadarnhaol mewn perthynas ag amcan tirwedd yr ACI. Er bod y rhan fwyaf o'r twf wedi'i gyfeirio at y de o Fro Morgannwg, gan osgoi'r Dirwedd o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig, gall rhywfaint o orgyffwrdd ag Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau) ac agosrwydd at Arfordir Treftadaeth Morgannwg arwain at effeithiau andwyol lleol, yn enwedig oherwydd datblygu safleoedd maes glas mawr ar ymylon aneddiadau. Fodd bynnag, disgwylir i'r effeithiau hyn gael eu lliniaru gan fesurau polisi cryf sy'n hyrwyddo seilwaith gwyrdd, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu tirwedd. Mae ffocws y Cynllun ar wella cymeriad lleol ac integreiddio datblygiad yn sensitif o fewn y dirwedd hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol posib.

## 3.3 Argymhellion

3.3.1 Gwneir yr argymhellion canlynol:

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol: argymhellir bod amodau yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Adneuo er mwyn cefnogi a diogelu'r Gymraeg yn y Fro.
- Adnoddau naturiol: argymhellir bod amod polisi yn cael ei ychwanegu i hyrwyddo dull tir llwyd yn gyntaf o ddatblygu (lle y bo'n bosib), er mwyn helpu i atal colli priddoedd amaethyddol cynhyrchiol.
- Adnoddau naturiol: argymhellir ailystyried polisïau Safleoedd Allweddol perthnasol i ychwanegu amodau a fydd yn helpu i leihau'r potensial o golli adnoddau mwynol a / neu ddŵr.
- Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth: argymhellir diweddaru'r polisïau Safleoedd Allweddol perthnasol i gynnwys cyfeiriad penodol at y safleoedd dynodedig y maent yn agos atynt, er mwyn helpu i sefydlu mesurau diogelu a / neu wella priodol.
- Amgylchedd hanesyddol: gwneir argymhelliad ar gyfer Polisi KS5, i gynnwys ystyriaethau treftadaeth penodol, er mwyn helpu i ddiogelu'r heneb gofrestredig sy'n agos at y safle.
- Amgylchedd hanesyddol: argymhellir bod polisïau Safleoedd Allweddol yn cael eu diweddaru (lle y bo'n briodol) i roi sylw i'r ardaloedd sensitif archaeolegol y maent yn gorgyffwrdd â nhw. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio'n andwyol ar sensitifrwydd ac arwyddocâd archaeolegol posib.
- Tirwedd: argymhellir bod Polisi KS2 yn cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad penodol at yr Ardal Tirwedd Arbennig sy'n gorgyffwrdd, er mwyn cryfhau'r polisi a lliniaru effeithiau andwyol posib ar gymeriad ac ansawdd yr ardal hon.

# 4. Beth sydd i ddigwydd nesaf?

## 4.1 Camau nesaf

4.1.1 Bydd yr Adroddiad ACI a’r Crynodeb Annhechnegol yn cyd-fynd â'r Cynllun Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu ac yna eu hystyried fel rhan o'r broses ailadroddol o lunio cynlluniau a’r ACI, a byddant yn llywio'r gwaith o gyflwyno’r CDLIN.

4.1.2 Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yr ACI a'r Cynllun Adneuo yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio.

## 4.3 Cynigion monitro

### Tabl 4.1: Rhaglen monitro ACI arfaethedig ISA ar gyfer y CDLlN

| Thema ACI | Mesur monitro arfaethedig (y flwyddyn) |
|---|---|
| Economi a chyflogaeth | • Cyfradd diweithdra gyffredinol<br>• Arwynebedd llawr cyflogaeth ychwanegol net<br>• Gwelliannau ansawdd wedi'u nodi ar gyfer gofod llawr cyflogaeth presennol<br>• Incwm twristiaeth blynyddol<br>• Datblygiad twristiaeth ychwanegol net yn ôl lleoliad a math |
| Poblogaeth a chymunedau | • Cyflenwad tir tai pum mlynedd<br>• Nifer y lleiniau newydd ar safleoedd newydd neu sy'n bodoli eisoes ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol<br>• Diweddariad i'r Asesiad Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol<br>• Nifer y cartrefi fforddiadwy newydd wedi'u cyflwyno<br>• Nifer y cartrefi newydd wedi'u cwblhau yn ôl math a maint ystafell wely<br>• Nifer y cartrefi arbenigol wedi'u darparu<br>• Nifer y cartrefi hunan-adeiladu/wedi'u hadeiladu'n benodol wedi'u cwblhau |
| Iechyd a lles | • Ardaloedd mannau naturiol hygyrch newydd wedi'u darparu drwy gynigion datblygwyr.<br>• Ardaloedd lle mae hygyrchedd mannau gwyrdd naturiol wedi'i wella gan drwy gynigion datblygwyr.<br>• Cysylltiadau teithio llesol newydd fesul lleoliad.<br>• Colli/ennill mannau agored cyhoeddus yn ôl math. Er enghraifft, parciau, meysydd chwarae, rhandiroedd. |
| Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol | • Cartrefi fforddiadwy wedi'u darparu drwy AGEHI |
| Newid hinsawdd | • Datblygiadau newydd sy'n cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn ôl y math o ddefnydd tir.<br>• Nifer, lleoliad a math o gynigion yn cyflawni dyluniad carbon isel.<br>• Nifer y cynlluniau ynni carbon isel ac adnewyddadwy datganoledig wedi'u cymeradwyo mewn datblygiad.<br>• Cymeradwyo datblygiad mewn Ardaloedd Perygl Llifogydd 2, 3a, a 3b yn ôl defnydd a chydnawsedd â pherygl llifogydd.<br>• Datblygiadau wedi'u gwrthod mewn Ardaloedd Perygl Llifogydd 2, 3a, a 3b. |

| Thema ACI | Mesur monitro arfaethedig (y flwyddyn) |
|---|---|
| Trafnidiaeth a symud | • Gwelliannau i gyffyrdd.<br>• Gwelliannau mewn sgorio hygyrchedd yn ôl lleoliad ar gyfer cerdded a beicio.<br>• Gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Cynlluniau Trafnidiaeth wedi'u cytuno yn ôl lleoliad a defnydd tir.<br>• Cilomedrau ychwanegol o hawliau tramwy cyhoeddus. |
| Adnoddau naturiol | • Data monitro ansawdd aer parhaus mewn lleoliadau monitro ansawdd aer.<br>• Unrhyw ARhAAau wedi'u datgan.<br>• Arwynebedd tir halogedig wedi'u adfer yn y flwyddyn adrodd.<br>• Nifer a lleoliad cynlluniau wedi'u gweithredu gyda draenio cynaliadwy sy'n gwasanaethu datblygiadau presennol yn ogystal â datblygiadau newydd.<br>• Nifer a lleoliad datblygiadau'n cynnwys ail-naturioli cyrsiau dŵr neu ardaloedd storio dŵr llif.<br>• Nifer a lleoliad y cynlluniau datblygu sy'n effeithio ar ardaloedd diogelu mwynau.<br>• Ardaloedd a lleoliadau ailddatblygu tir llwyd yn y flwyddyn adrodd.<br>• Colli tir amaethyddol yn ôl gradd.<br>• Ardaloedd datblygu tir glas yn y flwyddyn adrodd.<br>• Nifer a lleoliad y datblygiadau sy'n cyfrannu at gynnal seilwaith dŵr.<br>• Nifer a lleoliad cynlluniau annomestig sy'n cyflawni gostyngiad yn y defnydd o ddŵr dros y gwaelodlin. |
| Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth | • Targedau Cynlluniau Gweithredu sy'n monitro a rheoli effeithiau twf ar safleoedd wedi'u dynodi'n rhyngwladol (ACAau/ AGAau/ Ramsar)<br>• Enillion/colledion net tir clustogi a mannau gwyrdd amgen yn ôl swyddogaeth sy'n lleihau pwysau twf ar safleoedd dynodedig.<br>• Enillion/colledion net o gynefinoedd yn deillio o gynigion datblygu.<br>• Cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd yn ôl lleoliad.<br>• Ardaloedd o gynefinoedd wedi'u cyfoethogi neu gysylltiadau ecolegol |
| Amgylchedd hanesyddol | • Nifer, math a lleoliad datblygiadau cymeradwy sy'n effeithio ar ased treftadaeth.<br>• Nifer yr asedau treftadaeth wedi'u gwella a'u tynnu o'r categori 'mewn perygl'. |
| Tirwedd | • Datblygiadau sy'n effeithio ar CLGau |

aecom.com